

Polisi Corfforaethol - 02

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru parthed

Ein Pobl

(Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol: PSC Gwasanaethau Pobl)

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod taw pobl yw ased mwyaf gwerthfawr unrhyw sefydliad ac mae GTADC yn ymdrechu i fod yn gyflogwr dewisol i alluogi'r Gwasanaeth ddarparu'r lefel uchaf o wasanaeth i'n cymunedau a'r gwerth gorau am arian.

Cysylltiadau Gweithwyr

Er mwyn meithrin perthnasau da rhwng gweithwyr a chyflogwyr, bydd y Gwasanaeth yn datblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws ei holl feysydd busnes i sicrhau:

- Cydymffurfiaeth â holl ddeddfwriaeth cyflogaeth berthnasol
- Darparu cyngor a chyfarwyddyd ar faterion perthnasol
- Y caiff pob gweithiwr ei drin yn deg a chyda pharch
- Y caiff holl anghytundebau a materion disgyblu eu hymchwilio'n deg a'u datrys
- Proffilio a chyllidebu cyflog grymus
- Fod strwythurau sefydliadol yn effeithlon a hyblyg
- Parhad busnes drwy fonitro'r gweithlu, ynghyd â chynllunio rheoli ac olyniaeth

Presenoldeb a Lles

Er mwyn eithafu iechyd, lles ac effeithiolrwydd gweithwyr, bydd y Gwasanaeth yn datblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws ei holl feysydd busnes i:

- Fonitro presenoldeb a chyflwyno mentrau i leihau absenoldeb
- Sicrhau trefniadau gweithio hyblyg, sy'n ystyriol o deuluoedd a balans gwaith-bywyd
- Ddarparu sgrinio, monitro a gwylidwriaeth iechyd a meddygol, fel bo'n briodol
- Ddarparu addysg a chyngor iechyd a ffitrwydd

Pensiynau a Chyflogau

Er mwyn darparu cydnabyddiaeth amserol a chywir i weithwyr, bydd y Gwasanaeth yn datblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws ei holl feysydd busnes i:

- Sicrhau y gwobrwyir a chydabyddir cyfraniad a gweithgarwch gweithwyr
- Sicrhau cydymffurfiaeth ag amodau gwasanaeth a deddfwriaeth leol a chenedlaethol
- Darparu cyngor a chyfarwyddyd ar faterion perthnasol

Hyfforddi, Dysgu a Datblygu

Mae'r Gwasanaeth yn adnabod yr angen i hyfforddi, addysgu a datblygu gweithwyr i ddarparu gwasanaethau cyfoes effeithiol ac effeithlon sy'n ganolog i'r gymuned.

Er mwyn cyflawni hwn, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws ei holl feysydd busnes i sicrhau:

- Y cefnogir a hyfforddir pob gweithiwr i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth a'r gallu sydd angen arnynt i weithio'n effeithiol, i gyflawni eu potensial yn llawn a chwarae eu rhan wrth wneud ein cymunedau'r llefydd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld â hwy
- Y gall recriwtio a chadw pobl o'r radd flaenaf a'i fod yn gymwys i reoli gweithlu amrywiol
- Bydd dinasyddion a chymheiriaid y Gwasanaeth yn hyderus bod yr holl weithwyr yn briodol hyfforddedig a chymwys ac yn alluog a chymwys i weithio'n ddiogel a bod eu cyfansoddiad yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu
- Y gall ddatblygu a chael ei adnabod fel sefydliad dysg
- Bydd mesuriad hyfforddi, addysgu a datblygu yn adnabod yn glir ei effaith ar welliant gweithredol ynghyd â'i gyfraniad iddo
- Bod yr holl staff yn gymwys a hyfforddedig wrth ymgymryd â chymunedau'r Gwasanaeth fel sy'n berthnasol i'w busnes o ddydd i ddydd

Recriwtio a Dargedwedd

Mae'r Gwasanaeth yn adnabod yr angen i recriwtio a chadw gweithwyr o'r radd flaenaf i alluogi darparu'r gwasanaeth gorau posib i'r cymunedau.

Er mwyn cyflawni hwn, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws ei holl feysydd busnes i sicrhau:

- Y bydd recriwtio yn seiliedig ar rinwedd gan gymryd i ystyriaeth gofynion cydymffurfiaeth, gan gynnwys y rhai sydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010
- Bod telerau ac amodau cyflogaeth yn deg a chyfartal ar draws pob maes o'r Gwasanaeth
- Bod gweithdrefnau yn ystyriol o deuluoedd cyn belled ag sy'n ymarferol i alluogi balans gwaith-bywyd
- Y caiff aelodau newydd eu hintegreiddio i'r Gwasanaeth drwy raglen anwytho strwythuredig ynghyd â chefnogaeth a chyfarwyddyd priodol

Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod ei rôl wrth gefnogi Polisi Llywodraeth Cymru parthed dwyieithrwydd ac yn cydnabod bod cynnig dewis iaith gyson yn hanfodol i ddatblygu gwir gymunedau dwyieithog.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lwyr â deddfwriaeth Iaith Gymraeg cyfredol, a datblygu dwyieithrwydd ymhellach, bydd y Gwasanaeth yn ymdrechu i sicrhau bod ei strategaethau, cynlluniau a'i gweithdrefnau ar draws ei holl feysydd busnes:

- Yn hyrwyddo defnydd a hygyrchedd yr iaith Gymraeg ym mhob agwedd o fusnes y Gwasanaeth, yn fewnol ac allanol ill dau

This document is available in English

- Yn galluogi pawb sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau'r sefydliad i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â'u dewis personol lle bo hynny'n bosib
- Yn galluogi ansawdd gydradd effeithiol a phroffesiynol i wasanaeth yn y ddwy iaith
- Yn monitro a gwella ansawdd, ystod, a hygyrchedd gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd
- Yn cydweithio â grwpiau cymunedol a sefydliadau partner i ddatblygu ymhellach cyfleoedd dwyieithrwydd yn y gymuned


Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Gwasanaeth yn adnabod yr angen i brif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth y gwna, dathlu amrywiaeth ei staff a datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ganolog i'r dinesydd i bobl De Cymru.

Er bod yr Adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o fewn gorchwyl Gwasanaethau Pobl, bydd y Gwasanaeth yn gyfannol yn hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd, yn cymryd camau i atal gwahaniaethu anghyfreithlon, a hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl yn ei fusnes o ddydd i ddydd.

Er mwyn cyflawni hwn, mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gweithdrefnau ar draws ei holl feysydd busnes i sicrhau:

- Cydymffurfiaeth gyfreithiol â dyletswyddau cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau penodol cysylltiol yn ôl gofynion Llywodraeth Cymru
- Polisiâu a gweithdrefnau sy'n cefnogi gweithlu o'r 21^{ain} ganrif a'i anghenion hyblyg
- Proffil cyflogaeth sy'n ymdrechu i adlewyrchu amrywiaeth y bobl mae'n ei gwasanaethu
- Bod gwerthoedd sefydliadol yn llwyr gorfforedig a bod gan y staff cyfan fynediad i gydraddoldeb cyfle wrth gyflawni eu potensial llawn yn broffesiynol
- Diwylliant o fewn y gweithle lle bod gan yr holl staff werth a pharedd
- Sefydliad hygyrch sy'n ganolog i'r dinesydd sy'n cynnwys y cyhoedd a'i staff yn ei ddatblygiad
- Bod meddylfryd Asesiad Risg Cydraddoldeb yn dod yn brif ffrwd ar draws holl weithgareddau'r sefydliad
- Datblygu a monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau gwelliannau parhaol i'r agenda cydraddoldeb

Llofnodwyd: 
PSC Gwasanaethau Pobl

Dyddiad: 18/12/2015